**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**13eg Mai 2013**

**RECRIWTIO DIFFODDWYR TÂN (Y SYSTEM DYLETSWYDD AR GAEL YN ÔL Y GALW - *RDS*)**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Darperir yr adroddiad hwn er gwybodaeth, ac mae'n nodi'r gweithgarwch recriwtio a dethol yn ddiweddar.

## Y Cefndir

2 Ym mis Gorffennaf 2006, cyflwynodd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn y Deyrnas Unedig brosesau ar gyfer dethol diffoddwyr tân *(National Firefighter Selection (NFS))*. Y nod oedd creu asesiadau a oedd yn gyson trwy'r Deyrnas Unedig, yn deg ac yn wrthrychol, ac a oedd yn adlewyrchu gwerthoedd craidd y gwasanaeth tân ac achub a'r gofynion sylweddol sy'n rhan o rôl diffoddwr tân yn yr oes sydd ohoni. Mae ymchwil helaeth wedi dangos mai hwn yw'r dull mwyaf gwrthrychol a manwl gywir o asesu potensial unigolyn i gyflawni ei waith yn ddiogel ac yn effeithiol. Defnyddir profion yr NFS ymhob GTA awdurdod lleol yn y DU.

3 Nid oes gwahaniaeth rhwng gweithgareddau gweithredol diffoddwyr tân ar sail contract. Mae pob diffoddwr tân, boed ar gontract system yr RDS, amodau shifft neu griw dydd, yn cyflawni'r un rôl ac yn wynebu'r un gofynion technegol a phroffesiynol. Felly, y profion NFS a gaiff eu defnyddio i ddethol holl ddiffoddwyr tân y DU.

4 Yn hanesyddol, bu recriwtio diffoddwyr tân i'r system RDS mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell yn her. Mae cymunedau'n byw ac yn gweithio'n wahanol i'r arferion yn 1947 pryd y crëwyd y system ddyletswydd. Mae rôl y diffoddwr tân heddiw yn gosod llawer o

ofynion ar unigolion a'u teuluoedd, yn dechnegol ac o ran cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r materion hyn wedi cyfrannu at brinder ymgeiswyr addas.

5 Yn 2010 rhoddodd yr Awdurdod Tân ac Achub gyfarwyddyd i'r Gwasanaeth gyfrannu at gynaliadwyedd y system. O ganlyniad i hynny, aeth swyddogion ati drwy gydol 2010 a 2011 i adolygu'r ffordd y caiff y profion NFS eu defnyddio, gyda'r bwriad o gael effaith gadarnhaol ar gyfraddau llwyddo.

**Gwybodaeth**

6 Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i ofynion gweithredol wrth nodi pa gymunedau y byddai'r ymgyrch yn canolbwyntio arnynt. Oherwydd natur y system RDS, gyda darpar ddiffoddwyr tân posibl yn gorfod medru ymateb i'r orsaf dân o fewn 5-6 munud yn ystod yr oriau y maent ar gael, nid oedd unrhyw sicrwydd y byddai digon o geisiadau addas yn dod i law gan aelodau'r cymunedau hynny, sef:

Cerrigydrudion
Llanrwst
Corwen
Dinbych
Rhuthun
Llanelwy
Y Fflint
Yr Wyddgrug
Blaenau Ffestiniog
Porthmadog
Amlwch

**Denu Ymgeiswyr**

7 Cafodd Cynghorau Tref a mudiadau cymunedol eu hannog i ddylanwadu ar eu rhwydweithiau presennol i gefnogi'r ymgyrch yn lleol. Bu aelodau o griwiau'r gorsafoedd yn cydlynu'r gwaith o dosbarthu taflenni a gosod posteri yn eu hardaloedd.

8 Cafodd datganiadau i'r wasg a hysbyseb a gafodd ei recordio'n arbennig lawer o sylw yn y cyfryngau lleol yn yr ardaloedd recriwtio. Cafodd erthyglau nodwedd tudalen ddwbl, a oedd yn cynnwys cyfweliadau gyda staff, eu hargraffu yn y Cambrian News a'r Denbighshire Free Press. Hefyd, cafodd datganiadau i'r wasg eu hyrwyddo ar wefannau a safleoedd cyfryngau cymdeithasu.

**Ar-lein**

9 Yn ogystal â'r ymgyrch hysbysebu y talwyd amdani, defnyddiwyd Facebook a Twitter i hyrwyddo nosweithiau agored a'r ymgyrch yn gyffredinol, gan arwain at lawer iawn o ryngweithio.

10 Ymgyrch hysbysebu y talwyd amdani:

*Facebook*
Arweiniodd yr ymgyrchu hysbysebu ar Facebook at gyfanswm o:

- 7,611,333 o argraffiadau (caiff argraffiad ei gofnodi bob tro y bydd hysbyseb yn ymddangos ar sgrin defnyddiwr);
- 5,671 o gliciadau (caiff clic ei gofnodi bob tro y bydd defnyddiwr yn clicio ar yr hysbyseb); a
- 2,215 o weithrediadau (caiff gweithrediad ei gofnodi bob tro y bydd defnyddiwr yn rhyngweithio gyda'r hysbyseb/stori a noddir neu bostiad a hyrwyddir, h.y. os bydd rhywun yn 'hoffi' neu'n 'rhannu').

Cyfanswm y gwariant ar yr ymgyrch ar Facebook, gan gynnwys pob hysbyseb, stori a noddir a phostiad a hyrwyddir, oedd £1,240.

*'adwords' Google* (hysbysebu ar Google trwy ddefnyddio geiriau penodol)
Arweiniodd ymgyrch 'adwords' Google at gyfanswm o;

- 59,903 o argraffiadau; a
- 200 o gliciadau

a gostiodd gyfanswm o £180.94.

*hysbysebion Bing* (peiriant chwilio tebyg i Google yw Bing, sy'n cael ei redeg gan Microsoft)
Arweiniodd yr ymgyrch hysbysebion Bing at:
17,665 o argraffiadau; gyda
119 o gliciadau
a gostiodd gyfanswm o £100.

## Hysbysebion ar y Radio

11 Crëwyd hysbyseb dwyieithog ar gyfer y radio, gyda rheolwr criw o Gerrigydrudion a diffoddwr tân o Rhuthun.

## Nosweithiau Agored

12 Cafodd llawer o ddiddordeb eu greu gan y nosweithiau agored ledled y Gogledd, gyda 164 o bobl yn mynychu'r 11 digwyddiad a gynhaliwyd rhwng canol Ionawr a chanol Chwefror.

13 Cafodd y rhai a ddaeth i'r nosweithiau agored gyflwyniad a oedd yn rhoi trosolwg iddynt o'r Gwasanaeth a'r broses ddethol, gwybodaeth am fanteision bod yn ddiffoddwr tân yn ôl y galw, a'u gwneud yn ymwybodol o'r ymrwymiad a'r safonau sy'n ofynnol gan y Gwasanaeth.

14 Chwaraewyd DVD yn dangos y profion corfforol, ac roedd cyfle i wneud rhai o'r profion corfforol. Roedd cydlynydd gweithgareddau corfforol y Gwasanaeth ar gael i drafod y materion ffitrwydd.

15 Darparwyd pecynnau gwybodaeth i gyflogwyr lle'r oedd angen, a dosbarthwyd cryno-ddisgiau sgiliau Cymraeg.

## Ceisiadau

16 Dosbarthwyd bron i 200 o becynnau cais, gyda 107 o geisiadau wedi eu cwblhau yn dod i law i'w hystyried. Daeth yr ymgyrch recriwtio i ben ar 15$^{fed}$ Chwefror 2013.

## Dethol

17 Gwahoddwyd 76 ymgeisydd i sefyll y profion ysgrifenedig (tynnodd 8 allan yn y cam hwn). Daeth 68 i'w sefyll, gyda 46 yn llwyddo neu angen ailsefyll un o'r profion (68%), a'r 22 arall yn aflwyddiannus. Derbyniodd pawb adroddiad adborth llawn ar eu perfformiad.

18 Gwahoddwyd y 46 ymgeisydd llwyddiannus i sefyll y profion corfforol. Tynnodd dau ymgeisydd allan o'r broses yn y cam hwn.

19 Gofynnwyd am adroddiadau meddygol a datgeliadau ar gyfer 32 o ymgeiswyr, ac wedi hynny cynigwyd swyddi i 25 o unigolion, pob un o'r cymunedau targed heblaw un. Dechreuodd y rhan fwyaf o'r diffoddwyr tân newydd ar eu Cam Un – Rhaglen Ddatblygu ar 21ain Ebrill 2013. Disgwylir y bydd yr 11 arall yn cychwyn ar eu hyfforddiant ar 12fed Mai 2013.

**Argymhelliad**

20 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad a'r lefel uchel o lwyddiant.